COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5 o ORFFENNAF 2021 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams, Tracey James,Margaret Rees,Geoff Hewitt,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Meic Bowen ac Aled Williams.

2629 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Diolchodd i'r Is-gadeirydd Ian Evans am lywio'r Cyfarfod diwethaf ac am y Garden Cydymdeimlad. Llongyfarchwyd Plant Alan Lewis ar eu dyrchafiad yn ddiweddar ac i James, mab Glyndwr ar ei briodas i Liz ar ddiwedd mis mai.

2630 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 07/06/2021 fel rhai cywir.

2631 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2616 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2616- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2616 - Cofeb Rhyfel Pontiets - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc bod angen mwy o wybodaeth gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2616 - Parc Pontiets - Gobeithir y bydd y gwaith angenrheidiol yn dechrau'r wythnos yma. Diolchwyd i Ciran Griffiths a Tyssul Evans am eu gwaith yn paratoi'r safle.
Tud 1. Cofnod Rhif 2616 - Llwybr Treftadaeth - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ac arhoswn am ymatebion oddiwrth Cynghorau Gwledig Llanelli a Thrimsaran.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2632 Neuadd Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

2633 Neuadd Pontiets – Rent y Llyfrgell – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1500.

2634 Neuadd Pontiets – Rent y Swyddfa – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £2000.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2635 Salem,Pedair Heol - Derbyniwyd Llythyr o ddiolch am y rhodd.

2636 Moreia Meinciau – Derbyniwyd Llythyr o ddiolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2637 Cyngor Sir Gar – Hyfforddiant Cod Ymddygiad– Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2638 a) Rhif y Cais - PL/02085 – Maes Yr Haf, Pedair Heol - Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2639 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2640 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2641 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Mehefin)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mehefin)
ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Mehefin)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mehefin)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Mehefin)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mehefin)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Mehefin) - £15.26
ff) Phil Williams - Gwaith yng Nghiosg Crwbin -£46.78
g) Marcus Dininno– Torri Gwair,Carwe - £50.00
ng) Inc i'r Llungopïwr - £57.09
h) Ciran Griffiths – Gwaith ym Marc Pontiets - £50.00
i) Stampiau - £.61.20

2642 Parc Pontiets
Cafwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod a gafwyd dros Zoom gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Lleol. Arhoswn am ddatblygiadau pellach.

2643 Sedd yng Ngharwe
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â llythyr a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir parthed safle'r sedd. Eglurwyd gan un o'n haelodau sydd wedi bod ar y Cyngor oddiar 1968 bod y sedd wreiddiol wedi ei osod gan yr hen Gyngor Plwyf tua 1953/1954. Penderfynwyd danfon y manylion hyn yn ôl i'r Cyngor Sir.

2644 Gwyliau Mis Awst
Gan na fydd Cyfarfod o'r Cyngor ym Mis Awst rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i ddelio a materion brys neu alw cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym Mis Medi.

2645 Meddygfa Pontiets
Codwyd consyrn gan rai o'r cyhoedd ynglŷn â gwasanaeth y Feddygfa ym Mhontiets.Wedi trafodaeth penderfynwyd ysgrifennu at Reolwr y Feddygfa ynglŷn â'r mater a danfon copi o'r llythyr at Gyngor Cymuned Iechyd Hywel Dda.

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Fedi 2021 yn Neuadd yr Eglwys,Llangyndeyrn

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……